**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (157)**
**Dydd Mawrth, 4 Hydref 2005**

## AGENDA

### Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1 -** Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 3 -** Datganiad Busnes

**Eitem 4** - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Achosion E-coli yn y De - y diweddaraf

**Eitem 5 -** Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 - ***Ni ellir cynnig y cynnig yma***

**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

**Eitem 7 -** Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 - ***Tynnwyd Ynol***

**Eitem 8 -** Dadl ar y Gyllideb ddrafft

......................................

**Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

### NDM2593 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Penderfyna'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2005-4, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr Atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Alun Ffred Jones
Lorraine Barrett
Irene James
Mick Bates

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 31 Hydref 2005, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater(ion) a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o'r fath, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

CAIS CYNLLUNIO A ALWYD I MEWN DAN ADRAN 77 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN HOLTS HOLDINGS LTD I DDYMCHWEL ADEILADAU SYDD YNO A CHODI TAI ANNEDD NEWYDD YN BANK FARM, LOWER MOUNTAIN ROAD, PENYFFORDD, SIR Y FFLINT.

APÊL CYNLLUNIO DAN ADRAN 78 DEDDF CYNLLUNIOGWLAD A THREF 1990 GAN AWDURDOD DATBLYGU CYMRU AR GYFER DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG (ODDEUTU 150 O DAI) AR DIR YN TY DRAW FARM, Y PÎL, PEN-Y-BONT AR OGWR.

**......................................**

**Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

**......................................**

**Eitem 3 - Datganiad Busnes**

**......................................**

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Achosion E-coli yn y De - y diweddaraf

**......................................**

**Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 -** ***Ni ellir cynnig y cynnig yma***

## Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005

## NDM2594 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Gorffennaf 2005 ynghylch Gorchymyn drafft Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio wrth Gefn) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn drafft Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio wrth Gefn) (Cymru) 2005 yn cael ei

wneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005; a
iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2005.

**Hysbysiad a Gyflwynwyd ar 28 Medi 2005 yn unol â Rheol Sefydlog 24.25 (ii)**

**David Melding (Canol De Cymru); Brynle Williams (Gogledd Cymru); Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 24.25 (ii) gofynnwn ar i'r gorchymyn drafft a ganlyn, a gynigiwyd yng nghynnig NDM 2594, gael ei ystyried ar wahân gan gyfarfod llawn y Cynulliad:

Y Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn drafft Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio wrth Gefn) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau

.....................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

### NDM2595 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

### NDM2596 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Medi 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

**Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005**

## NDM2597 Jane Hutt (Bro Morgannwg) - TYNNWYD YNOL

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

## NDM2598 Jane Hutt (Bro Morgannwg) - TYNNWYD YNOL

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Medi 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

.......................................

**Eitem 8 - Dadl ar y Gyllideb ddrafft**

## NDM2599 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 21.3, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-2007, 2007-2008 a 2008-2009 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 27 Medi 2005 gan y Gweinidog dros Gyllid.

Anfonwyd copïau o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006-2007, 2007-2008 a 2008-2009 drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Medi 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:

**(1)**
**(2+3)**
**(4)**
**(5+6+7+8+9+10+11)**

**Gwelliant 1 - Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Jenny Randerson (Canol**

**Caerdydd); John Marek (Wrecsam); Peter Law (Blaenau Gwent)**

Dileu popeth ar ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a rhoi’r pwyntiau a ganlyn yn lle hynny:

1) Yn gresynu nad yw’r gyllideb ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 27 Medi 2005 gan y Gweinidog dros Gyllid:

a) Yn dechrau mynd i’r afael â’r bwlch cyllido hanesyddol rhwng Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a sefydliadau tebyg yn Lloegr;
b) yn cynnwys darpariaeth ddigonol i gynorthwyo pobl sy’n talu’r dreth gyngor o ganlyniad i’r ymarfer ailfandio ac i liniaru’r pwysau ar awdurdodau lleol;
c) yn cynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer cronfa ysgolion bach;
d) yn cynnwys darpariaeth ddigonol i ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru;
e) yn cynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen addysg.

2) Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid i gyflwyno cyllideb ddrafft ddiwygiedig sy'n rhoi sylw i'r materion a godir yn (1) uchod.

Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i ailddyrannu’r gyfran o’r gwariant ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gweinyddiaeth ganolog i'r gwasanaethau cyhoeddus rheng-flaen.

Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i baratoi dadl sydd wedi'i hymchwilio’n dda i'w chyflwyno i lywodraeth y DU i bwyso am ddiwygio fformiwla Barnett.

Gwelliant 4 - Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo’r Trefnydd i gyflwyno cynnig dan Reol Sefydlog 8.1 i sefydlu pwyllgor pleidiol-gytbwys o bum Aelod Cynulliad a fydd yn comisiynu ac yn craffu ar ymchwil annibynnol i fformiwla gyllido deg ar sail anghenion y gellir seilio'r grant bloc arni, ac a fydd yn cyflwyno'i ganfyddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn toriad yr haf 2006.

Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddefnyddio’i hadnoddau’n effeithlon er mwyn mynd i’r afael â rhestri aros rhy hir y GIG yng Nghymru.

Gwelliant 6 - David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i fuddsoddi mewn 'Canolfannau Galw-i-Mewn' i liniaru'r pwysau ar adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y GIG.

Gwelliant 7 **- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant parhaus Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ailfuddsoddi arian a frigdorrwyd oddi ar gynlluniau cymorth i amaethyddiaeth mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol o fewn cyfnod derbyniol.

Gwelliant 8 **- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ddarparu arian digonol ar gyfer cynlluniau i wella seilwaith y ffyrdd.

Gwelliant 9 **- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant parhaus Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddefnyddio'i hadnoddau i greu amgylchedd economaidd lle gall busnesau Cymru ffynnu.

Gwelliant 10 **- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant parhaus Llywodraeth Lafur y Cynulliad i fuddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy ar wahân i ffermydd gwynt ar y tir.

Gwelliant 11 **- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant parhaus Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddarparu arian digonol ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru.

*Dogfennau Ategol*
*Gellir gweld y gyllideb ddrafft drwy glicio ar:*
*http://www.wales.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/budget2005/index-e.htm*

.........................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 5 Hydref 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**



28 Ebrill 107

**Anfonwch e-bost at Webmaster gyda chwestiynau neu sylwadau am y wefan yma.**
**Hawlfraint © 2000 Gwefan y Cynulliad Cenedlaethol**
**Diwygiad diwethaf: 04/10/2005**